**Eitem agenda: 4(i)**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, 27ain Mawrth 2006, yn Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon. Dechreuodd y cyfarfod am 12 o'r gloch hanner dydd.

**Presennol:**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D W Smith (eilydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau) P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); K Hughes (Uwch Reolwr Datblygu); D G Roberts (Uwch Reolwr Diogelwch Tân) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Williams (Is-gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan (dirprwy) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |
| P L Slee | Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) |

Hysbysodd y Clerc yr aelodau fod y Cynghorydd D W Smith yn eilyddio yn y cyfarfod yn lle'r Cynghorwyr S C Jones a J A MacLennan. Roedd y Cynghorydd Smith wedi llofnodi'r datganiad yn ymrwymo i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Awdurdod ac wedi derbyn copïau o Reolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod. Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Smith i'r cyfarfod.

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Hysbysodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi'u cyflwyno i'r Clerc nac yntau i'w hystyried.

## 3) Cyhoeddiadau

Gwnaeth y Cadeirydd:

i. dalu teyrnged i'r diweddar Peter Lennard, Rheolwr Grŵp Cynnal Gweithrediadau a Datblygu y Gwasanaeth, a fu farw ym mis Chwefror yn dilyn gwaeledd hir. Nododd fanylion am yrfa hir a nodedig Mr Lennard gyda'r Gwasanaeth a mynegodd gydymdeimlad yr Awdurdod i'w deulu, ei ffrindiau a'i gydweithwyr. Hefyd diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Tân a'i staff am ymgymryd â threfniadau'r angladd. Safodd yr aelodau a'r swyddogion fel arwydd o barch a choffadwriaeth;
ii. estyn cydymdeimlad yr Awdurdod i'r Cynghorydd J A Smith yn dilyn marwolaeth ei fam yn ddiweddar;
iii. gyhoeddi bod y Cynghorydd S C Jones yn cryfhau'n raddol a'i bod wedi bod yn bresennol ac wedi cymryd rhan yn un o gyfarfodydd pwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ddiweddar. Darllenwyd cerdyn a anfonwyd at y Cadeirydd gan y Cynghorydd Jones.

Roedd yn diolch i aelodau a swyddogion yr Awdurdod am eu negeseuon o gefnogaeth a'u cofion ac am yr anrheg a roddwyd iddi;

iv. anfon cofion gorau i'r Cynghorydd E Morgan Jones oedd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar a chredir ei bod yn gwella'n dda;
v. llongyfarch y Cynghorydd D Jones a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed ym mis Chwefror;
vi. llongyfarch y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Paul Claydon ar ddod yn daid am y tro cyntaf;
vii. llongyfarch y Clerc, Mr Ian Miller, yn dilyn ei ethol yn Gadeirydd SOLACE (Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol) (Cymru) am y flwyddyn 2006/07;
viii. atgoffa'r aelodau fod rhaid cyflwyno derbynebau TAW gyda'r holl hawliadau teithio a gyflwynir ar ôl 1af Ebrill 2006, a bod hawliadau teithio a chynhaliaeth i'w cyflwyno ar y ffurflenni hawlio ar eu newydd wedd o'r dyddiad hwnnw ymlaen;
ix. hysbysu bod diwrnod agored i'w gynnal yng Ngorsaf Dân y Rhyl ar 1ar Ebrill 2006 lle byddai'r cyhoedd yn cael cyfle i weld y cynlluniau ar gyfer yr orsaf dân gyntaf i'w hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer ei chymuned yng Ngogledd Cymru;
x. ofyn i'r aelodau nad oeddynt eisoes wedi cofrestru ar gyfer Cynhadledd Walesfire 2006, 8fed – 10fed Mai, 2006 yn Llandudno gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Aelodau gynted ag y bo modd;
xi. dyddiadau cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol: cynghorwyd yr aelodau fod y Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg wedi penderfynu cynnal ei gyfarfod nesaf ddydd Llun, 8fed Mai 2006, a bod dyddiad y cyfarfod Panel Gweithredol wedi ei newid o ddydd Mawrth, 23ain Mai, i ddydd Iau, 18fed Mai 2006, oherwydd bod rhai aelodau'n methu bod yn bresennol. Y ddau gyfarfod i ddechrau am 10 o'r gloch y bore. Trefnwyd cynnal Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod a'i gyfarfod busnes cyffredin nesaf yn Neuadd y Dref, Wrecsam, ddydd Llun, 19eg Mehefin 2006. Yn dilyn penderfyniad y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 13eg Mawrth 2006 i gynnal cinio i gofnodi degfed pen-blwydd yr Awdurdod, gofynnwyd i'r aelodau ystyried a ddylid cynnal y cinio dathlu hwn ar ddiwrnod y Cyfarfod Blynyddol, ac os felly a ddylid newid lleoliad y Cyfarfod Blynyddol i leoliad mwy canolog.

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19eg Rhagfyr 2005

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 13eg Rhagfyr 2005
iii. Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22ain Chwefror 2006

## 5) Materion yn codi

Roedd y materion isod yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub, 19 Rhagfyr 2005, tudalennau 3 a 4, Materion yn codi – "Y Berthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru":** Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau ei fod wedi adrodd wrth y Panel Gweithredol ar 13eg Mawrth bod trafodaethau'n parhau ynghylch aelodaeth Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a ffurfiwyd yn ddiweddar. Roedd Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud wrth y Prif Swyddog Tân fod y penderfyniad terfynol am hyn yn nwylo'r cynrychiolwyr etholedig. Barn y Cynghorydd E C George oedd, gan y byddai'r Panel hwn yn un o is-bwyllgorau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Gymdeithas hefyd. Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud cais i aelodaeth y Panel gynnwys y cadeirydd, yr is-gadeirydd a phedwar cynrychiolydd etholedig arall o bob un o'r tri awdurdod tân ac achub. Ymddengys mai barn y cynrychiolwyr etholedig o'r awdurdodau tân ac achub eraill oedd y dylid cyfyngu'r aelodaeth i gadeirydd ac is-gadeirydd pob awdurdod. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r mater eto gyda Chyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru pan fyddai'r Pwyllgor Cydlynu, a oedd eisoes wedi cadarnhau cynnig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn cyfarfod ar 31ain Mawrth 2006. Ar gais yr aelodau cytunodd y Cadeirydd i geisio trefnu cyfarfod rhwng cynrychiolwyr o'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn ystod Cynhadledd Walesfire gyda'r nod o ddod i gytundeb ar y mater.

12.15pm Cyrhaeddodd y Cynghorydd P M Shone y cyfarfod ar y pwynt yma.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) a oedd yn darparu diweddariad cryno i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr oedd wedi bod yn bresennol ynddynt yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Rhagfyr 2005. Cyflwynodd y Cadeirydd fanylion am y gwahanol gyfarfodydd a digwyddiadau a nodwyd yn ei adroddiad, gan gyfeirio'n arbennig at gyfarfodydd y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Brigadau Tân Awdurdodau Lleol. Roedd nifer o'r cyfarfodydd hyn wedi trafod y dyfarniad cyflog arfaethedig i ddiffoddwyr tân y flwyddyn nesaf, a'r dyfarniad cyflog i brif swyddogion. Cadarnhaodd fod y Cyd-Gyngor yn bwriadu trefnu cyfarfod gyda'r Undeb y Brigadau Tân (FBU) yn awr i drafod y cynigion. Hefyd cadarnhaodd y Cadeirydd na allai rannu'r

wybodaeth hon â'r Awdurdod ar y cam hwn, oherwydd cyfyngiadau cyfrinachedd. Wrth ateb cwestiwn gan y Cynghorydd E C George cadarnhaodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y bygythiad o weithredu'n ddiwydiannol gan yr FBU dros hawliau pensiwn wedi codi dros dro yn sgîl penderfyniad y Llywodraeth i ddiogelu hawliau pensiwn diffoddwyr tân presennol. Roedd yr undeb yn ystyried y cynigion newydd a gyflwynwyd iddi gan y Llywodraeth ar hyn o bryd. O ran y gweithredu diwydiannol a oedd i ddigwydd ar 28ain Mawrth 2006 gan yr undebau gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cynrychioli'r staff cefnogol, cynghorodd y Prif Swyddog Tân ei fod yn hyderus y gellid cynnal gwasanaeth mor agos i'r arferol â phosibl. Cynghorwyd y Panel fod manylion goblygiadau ariannol dyfarniad Arglwyddi'r Gyfraith ar y "Rheoliadau Diffoddwyr Tân Rhan Amser a Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafriol) 2000" yn parhau yn aneglur gan fod yr achos wedi'i gyfeirio'n ôl i'r Tribiwnlys Cyflogaeth i ystyried y materion ymhellach ar sail yr arweiniad a ddarparwyd gan Dŷ'r Arglwyddi.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Awdurdod ei bod wedi bod yn brofiad pleserus bod yn bresennol yn Seminar y Grŵp Gweithrediadau Morol a gynhaliwyd yn Portsmouth ar 7 ac 8 Mawrth, yn enwedig clywed enw Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei grybwyll ar sawl achlysur. Cyfeiriwyd yn benodol at y Cerdyn Briffio a ddyfeiswyd gan Lee Williams o Grŵp Cynnal Gweithrediadau a Datblygu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r llyfryn hwn, i'w gadw ym mhoced map pob siwt, yn cynnwys manylion diogelwch perthnasol a chanllawiau sut i ddefnyddio'r offer amddiffyn personol ychwanegol wrth ddelio â digwyddiadau morol.

Mewn ymateb i gais, cytunodd y Cadeirydd i ddarparu crynodeb ar lafar i'r aelodau o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyswllt y Gwasanaeth Tân ac Achub a Phwyllgor Cynghorol y Gwasanaeth Tân ac Achub o hyn ymlaen.

Diolchodd y Cynghorydd P C Evans i'r Cadeirydd am ei adroddiad cynhwysfawr. Credai'r Cynghorydd Evans fod yr adroddiad yn dangos ymroddiad y Cadeirydd i'w ddyletswyddau fel Cadeirydd yr Awdurdod a gofynnodd am gofnodi gwerthfawrogiad yr Awdurdod iddo am ei holl waith caled.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad a darparu diweddariad ar lafar am y materion a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyswllt y Gwasanaeth Tân ac Achub a Phwyllgor Cynghorol y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y dyfodol.***

## 7) Cynllun Integredig Rheoli Risg – Cynllun Gweithredu'r Drydedd Flwyddyn

Hysbysodd y Clerc yr Awdurdod fod y Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg, yn ei gyfarfod yn gynharach y diwrnod hwnnw, wedi argymell y dylai'r Awdurdod ohirio penderfyniad ynghylch mabwysiadu Cynllun Gweithredu

Trydedd Flwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg tan ei gyfarfod nesaf ar 19eg Mehefin 2006. Roedd y Gweithgor hefyd wedi gofyn am ragor o eglurhad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch goblygiadau'r Safon Gwasanaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gyda'r nod o ddarparu presenoldeb i ymdrin â thân yn y cartref o fewn 10 munud i 80% o gartrefi Cymru.

Cyfeiriodd y Clerc yr aelodau at ei adroddiad atodol, a'r pwyntiau ym mharagraff 10 yn benodol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>:***

- ***i.*** ***bod yr Awdurdod yn gohirio penderfyniad ynghylch mabwysiadu Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Mehefin 2006 tra'n aros am dderbyn rhagor o eglurhad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar oblygiadau'r Safon Gwasanaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r nod o ddarparu presenoldeb i ddiffodd tân yn y cartref o fewn 10 munud i 80% o gartrefi Cymru; a***
- ***ii.*** ***trefnu cyfarfod o Weithgor y Cynllun Integredig Rheoli Risg ar gyfer 8fed Mai 2006 i ystyried unrhyw wybodaeth bellach a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt y broses Cynllun Integredig Rheoli Risg ar gyfer 2006/07 a gofynion Cynllunio Lleihau Risg ar gyfer 2007/08;***
- ***iii.*** ***ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynir ar 8fed Mai 2006 bod y Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg yn ffurfio ei argymhellion ar Gynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg i'w cyflwyno gerbron cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Mehefin 2006;***
- ***iv.*** ***bod yr Awdurdod yn dirprwyo'r dasg o baratoi Cynllun LleihauRisg drafft i'r Panel Gweithredol, gyda'r fersiwn ddrafft i'w chymeradwyo ar gyfer ymgynghori arni yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 19eg Mehefin 2006;***
- ***v.*** ***cynnal cyfarfod hydref yr Awdurdod ym mis Hydref yn hytrach na mis Medi er mwyn caniatáu digon o amser i'r broses ymgynghori ar Gynllun LleihauRisg 2007/2008 yr Awdurdod; a***
- ***vi.*** ***anfon llythyr at holl aelodau'r Panel Gweithredol/Gweithgor Cynllun Integredig Rheoli Risg yn eu cynghori am ddyddiadau'r cyfarfodydd nesaf.***

## 8) Alldro Amcanol 2005/06

Yn absenoldeb y Trysorydd cyflwynwyd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gan Gyfrifydd y Gwasanaeth yn rhoi manylion am yr alldro amcanol amcangyfrifedig ar gyfer 2005/06. Esboniodd, gan fod yr Awdurdod yn dynesu at ddiwedd y flwyddyn gyfrifyddu, fod y ffigwr tanwariant amcangyfrifedig o £320,032 yn eithaf cywir.

***Penderfynwyd: - nodi'r adroddiad a neilltuo £70,000 o'r tanwariant yn 2005/06 i greu Darpariaeth ar gyfer Diswyddiadau.***

## 9) Rheoli'r Trysorlys

Yn absenoldeb y Trysorydd cyflwynwyd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gan Gyfrifydd y Gwasanaeth yn nodi manylion am y gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn y cyfnod hyd at ac yn cynnwys 28ain Chwefror 2006, ac yn cynghori'r aelodau y bu rhai newidiadau i restr gwrthbartïon yr Awdurdod.

***Penderfynwyd: - nodi'r adroddiad a chymeradwyo y rhestr ddiwygiedig o wrthbartïon.***

## 10) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau'r Awdurdod ar gyfer 2005/06. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gefnogaeth yr Awdurdod i alwad y Pwyllgor am newid mewn deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu ymchwilio pob cwyn yn lleol i ddechrau, gan gyfeirio'r rhai mwyaf difrifol at yr Ombwdsmon. Holodd y Cynghorydd W J Chorlton pam bod y Pwyllgor yn gofyn am gefnogaeth yr Awdurdod i'r newid yn y ddeddfwriaeth. Cynghorodd y Clerc fod Pwyllgor Safonau'r Awdurdod o'r farn fod caniatáu i bwyllgorau safonau lleol ymchwilio i gwynion i ddechrau yn sicrhau y gellid chwynnu cwynion di-sail cyn eu cyfeirio at yr Ombwdsmon. Dan y trefniadau presennol roedd nifer fawr o gwynion yn cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon dim ond iddo eu cyfeirio yn ôl i'r pwyllgor safonau lleol eu hystyried. Roedd newidiadau i'r ddeddfwriaeth, tebyg i'r hyn yr oedd nifer o bwyllgorau safonau yng Nghymru yn ceisio eu sicrhau, eisoes ar droed yn Lloegr. Roedd y Cynghorwyr W J Chorlton, J A Roberts ac E C George o'r farn ei bod yn fwy annibynnol a thryloyw cyfeirio'r holl gwynion at yr Ombwdsmon i ddechrau. Cynigiwyd gwelliant a'i eilio: na ddylai'r Awdurdod gefnogi cais y Pwyllgor Safonau i ddiwygio'r ddeddfwriaeth i ganiatáu ymchwilio i gwynion yn lleol i ddechrau. Pan gynhaliwyd pleidlais pleidleisiwyd o blaid y gwelliant a:

***Phenderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad ond peidio â chefnogi newid i ddeddfwriaeth a fyddai'n caniatáu ymchwilio i'r holl gwynion yn lleol i ddechrau, gyda dim ond y rhai mwyaf difrifol yn cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon.***

## 11) Y Diweddaraf ar Bensiynau

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad i'r Awdurdod ar gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran deddfwriaeth ar bensiynau a materion cysylltiedig. Aeth y Clerc ymlaen i esbonio bod yr adroddiad yn ymdrin â rhai o'r materion a godwyd ynghynt yn ystod y cyfarfod. Fel a nodwyd yn yr adroddiad, ni chyhoeddwyd fawr ddim

gwybodaeth gan Lywodraeth y Cynulliad ynghylch gwahanol faterion yn ymwneud â phensiynau. Roedd hyn yn gwrthgyferbynnu â'r sefyllfa yn Lloegr lle'r oedd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n rheolaidd. Yn ôl y Clerc yr agwedd sy'n peri'r pryder mwyaf ar hyn o bryd yw oedi gan Lywodraeth y Cynulliad cyn rhoi'r cynllun iawndal ar sail statudol. Roedd yn hanfodol bwysig bod Llywodraeth y Cynulliad yn deddfwriaethu i'r perwyl hyn gynted ag y bo modd i sicrhau na fyddai diffoddwyr tân yng Nghymru dan anfantais, oherwydd y rheolau treth newydd, petai hawliad am iawndal yn cael ei ganiatáu ar neu ar ôl 6ed Ebrill 2006. Yn dilyn trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad, ac anfon llythyr diflewyn ar dafod i Lywodraeth Cynulliad Cymru:***

- ***i.*** ***yn ailadrodd pryderon yr Awdurdod am yr oedi cyn cyhoeddi'r cynigion ar gyfer y cynllun pensiwn newydd a'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth berthnasol;***
- ***ii.*** ***yn gofyn am gyhoeddi canllawiau yn ddi-oed am y trefniadau pensiwn dros dro i'w cyflwyno ar gyfer diffoddwyr tan newydd o Ebrill 2006 cyn i'r cyfraniadau pensiwn gael eu trosglwyddo i'r cynllun newydd unwaith y'i sefydlir; a***
- ***iii.*** ***y dylid gweithredu ar fyrder i roi'r cynllun iawndal ar sail statudol yn weithredol o 1af Ebrill 2006 fel nad yw diffoddwyr tân yng Nghymru dan anfantais pan ddaw'r rheolau treth incwm newydd i rym ar 6ed Ebrill 2006.***

## 12) Diweddariad ar y Gymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Awdurdod ar y cynnydd a wnaed wrth sefydlu'r Gymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc yng Ngogledd Cymru. Gwnaeth y Cadeirydd gyfleu gwerthfawrogiad Cydlynwyr y Gymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc i'r Awdurdod am ddarparu'r cyllid a oedd wedi eu galluogi i drefnu'r Digwyddiad Cyflawniadau oedd i'w gynnal ar 17eg a'r 18fed Mehefin 2006. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r holl aelodau i fynychu'r achlysur hwnnw. Hysbysodd y Cynghorydd S Frobisher yr Awdurdod fod aelodau'r Gymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc yn edrych ymlaen at y digwyddiad a'i bod yn gobeithio y byddai cynnal yr achlysur hwn yn cynorthwyo canghennau eraill yn eu hymdrechion i sefydlu eu hunain. Mewn ymateb i gwestiwn pam y ffurfiwyd canghennau mewn ardaloedd penodol tra nad oedd canghennau mewn ardaloedd eraill dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod y canghennau hyn yn dibynnu ar ewyllys dda ac ymrwymiad tymor hir staff yn y gorsafoedd tân dan sylw. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion sy'n ymwneud â changhennau'r Gymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc am eu hamser, a'u hymdrech a'u hymroddiad.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad.***

12.45pm  Gwnaeth y Cynghorydd W T Owen ymuno â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

### 13) Prosiect Ffenics

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn darparu diweddariad i'r aelodau ar y Prosiect Ffenics.  Esboniodd fod Prosiect Ffenics yn wahanol i'r Gymdeithas Diffoddwyr Tân Ifanc gan ei fod yn rhaglen ymyrraeth i bobl ifanc â phroblemau.  Diben y Prosiect yw mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy herio agweddau pobl ifanc, ynghyd â'u gweithredoedd.  Esboniodd bod pob un o gyrsiau'r Prosiect yn cynnig lle i tua 10 o bobl ifanc, gyda'u henwau wedi'u cyflwyno gan yr Heddlu.  Yn arferol byddai Swyddog Rhawd yr Heddlu yn bresennol yn ystod y cwrs.  Nododd y Cadeirydd bod gweld cyflawniadau'r bobl ifanc ar ddiwedd y cwrs yn rhoi boddhad, a dywedodd y byddai'n gwahodd aelodau lleol i seremonïau cyflwyno tystysgrifau Ffenics yn eu hardal yn y dyfodol.  Croesawyd y Prosiect gan yr aelodau ac roeddynt o'r farn ei fod yn ffordd gadarnhaol o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

### 14) Er Gwybodaeth

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tan Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) rifyn diweddaraf y cylchgrawn 'Er Gwybodaeth' i aelodau'r Awdurdod.

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn y cyhoeddiad.***

### 15 Materion brys

Nid oedd unrhyw faterion brys.

Llongyfarchodd y Cynghorydd S Frobisher y swyddogion ar y Diwrnod Ymwybyddiaeth Diogelwch Ffyrdd llwyddiannus a gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi, ddydd Gwener, 24ain Mawrth 2006, a drefnwyd ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych.

### <u>RHAN II</u>

Dim eitemau busnes.

Gorffennodd y cyfarfod am 12.50pm.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u>     **Dyddiedig:** <u>19 Mehefin, 2006</u>